caerdydd un blaned

Cynllun Cyflenwi 2013-17

-dylid ystyried y cynllun hwn ochr yn ochr â gweledigaeth gysylltiedig Caerdydd Un Blaned



www.caerdyddunblaned.co.uk

CARDIFF
CAERDYDD

Cynllun Cyflenwi 2013-17
Ynni Un Blaned

Datblygu gallu cynhyrchu ynni Caerdydd

CAMAU GWEITHREDU

- Datblygu Rhaglen Ynni'r Ddinas i edrych ar ffynonellau ynni amgen ym mhob rhan o'r ddinas, ffyrdd o leihau'r galw am ynni a gwella effeithlonrwydd ynni. Mae hyn yn cynnwys ynni solar, ynni dŵr, ynni gwynt ac ystyried cyfleoedd o ran rhwydweithiau gwresogi rhanbarthol.
- Datblygu project dŵr Cored Radur a nodi cyfleoedd eraill o ran ynni dŵr ar afonydd Caerdydd.
- Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu project gwresogi rhanbarthol o amgylch cyfleuster Viridor
- Datblygu Strategaeth Paneli Solar ar gyfer eiddo y mae'r Cyngor yn berchen arno, a gweithredu Cam 1
- Gweithredu Rhaglen Rheoli Carbon yr Awdurdod Lleol i sicrhau gostyngiad o 60 % yn allyriadau CO2 y Cyngor erbyn 2018
- Cynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy fel rhan o broses y CDLl i nodi ardaloedd o'r ddinas a fyddai'n addas ar gyfer technoleg adnewyddadwy

Sicrhau gwelliannau o ran ynni fforddiadwy a thai

CAMAU GWEITHREDU

- Ymgysylltu â 'Bargen Werdd' newydd y DU, ECO a mentrau eraill sy'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd mewn cartrefi ledled y ddinas
- Sicrhau bod yr holl dai cymdeithasol yn bodloni sgôr ynni a argymhellir gan y llywodraeth (SAP 65)
- Gosod 600 o foeleri graddfa A o ran effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi'r Cyngor ar draws y ddinas
- Helpu i gyflawni Strategaeth Gwres Fforddiadwy Caerdydd i leihau nifer y cartrefi sy'n dioddef o dlodi tanwydd a gwella iechyd a lles
- Ailwampio cartrefi presennol sy'n 'anodd eu trin' ar ôl cwblhau gwaith mewn dros 200 o gartrefi ym Mhentwyn
- Cyflawni CYD Caerdydd, Ynni ar y Cyd – cynllun cyfnewid ynni ar y cyd i gartrefi

Cyfleoedd buddsoddi ac incwm ym mhob rhan o'r ddinas

CAMAU GWEITHREDU

- Datblygu Busnes Ynni Adnewyddadwy Cydweithredol i greu incwm drwy gynhyrchu ynni
- Cyflwyno cynnig i raglen technoleg Systemau Deallus a Gwres y Sefydliad Technolegau Ynni (ETI) i geisio achub ar gyfleoedd o ran rhwydwaith gwres
- Gweithredu'r project Buddsoddi i Arbed o ran goleuadau stryd

Dyheadau'r dyfodol

CAMAU GWEITHREDU

- Ymchwilio i'r posibilrwydd o harneisio ynni'r llanw yn Aber Afon Hafren drwy fanteisio ar dechnoleg forol adnewyddadwy fel lagwnau llanw
- Agor canolfan cyngor ar ynni yn y ddinas

Cynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio ac atgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi

CAMAU GWEITHREDU

- Gweithio tuag at gyfradd ailgylchu a chompostio ddinesig o 58% erbyn 2015/16, 64% erbyn 2020 a 70% erbyn 2025
- Datblygu trefniadau cydweithio â Phrosiect Gwyrdd – unwaith y bydd awdurdodau partner wedi cyflawni targedau cyfreithiol Llywodraeth Cymru o ran ailgylchu, compostio a safleoedd tirlenwi, bydd Prosiect Gwyrdd yn troi gwastraff na ellir ei ailgylchu na'i gompostio yn ymarferol yn drydan a gwres
- Datblygu Cydweithrediad o ran Gwastraff Organig
- Gweithredu ymagwedd 'Dinas Ddi-sbwriel' o ran gwastraff

Ymgyrchoedd newid ymddygiad

CAMAU GWEITHREDU

- Parhau ag ymgyrch 'Gwaredu'r Gwastraff', a gynhelir mewn partneriaeth â Chadwch Gaerdydd yn Daclus a phrifysgolion y ddinas, i fynd i'r afael â'r gwastraff sy'n cael ei greu ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, gyda'r eitemau dros ben yn cael eu rhoi i elusennau o amgylch y ddinas yn hytrach na chael eu hanfon i safleoedd tirlenwi
- Gweithredu ymgyrch addysg 'Sothach Sbwriel' ym mhob un o ysgolion Caerdydd a fydd yn annog newid diwylliannol o ran agweddau at leihau gwastraff ac ailgylchu

Dyheadau'r dyfodol

CAMAU GWEITHREDU

- Archwilio partneriaethau i leihau deunydd pecynnu

Strategaeth a seilwaith

CAMAU GWEITHREDU

- Datblygu Strategaeth Trafnidiaeth ochr yn ochr â'r CDLl ar Adnau a fydd yn sicrhau bod datblygiadau newydd arfaethedig yn hawdd eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus
- Parhau i fuddsoddi mewn seilwaith i gyflymu teithiau bws a dibynadwyedd gwasanaethau ar brif Goridorau Bws Strategol Caerdydd, a datblygu llwybrau Teithiau Bws Cyflym yn y ddinas
- Cefnogi'r broses o drydaneiddio Cledrau'r Cymoedd – ac yn y pen draw datblygu Metro De Cymru – i greu system drafnidiaeth gynaliadwy i'r 80,000 o bobl sy'n dod i Gaerdydd bob dydd
- Ystyried a datblygu opsiynau i wella cysylltedd a threfniadau cyfnewid trafnidiaeth ar draws y ddinas
- Gweithio gyda phartneriaid i fabwysiadu trefniadau llywodraethu newydd mewn perthynas â dull strategol o ymdrin â thrafnidiaeth ar gyfer y rhanbarth ddinesig

Cynllunio teithiau a dewisiadau teithio cynaliadwy

CAMAU GWEITHREDU

- Parhau i weithredu'r Cynllun Rhwydwaith Beicio Strategol a darparu llwybrau beicio craidd ledled y ddinas
- Llunio Cynllun Cymdogaethau Cerddadwy i Gaerdydd, ynghyd â rhaglen o gynlluniau wedi'u blaenoriaethu
- Ochr yn ochr â phartneriaid, parhau i weithio mewn ysgolion a gweithleoedd ledled y ddinas i hyrwyddo beicio drwy broject Ar Dy Feic a Her Feicio Caerdydd
- Parhau i ddarparu Strategaeth y Cynllun Trafnidiaeth, gan helpu sefydliadau ledled Caerdydd i gynnig dewisiadau teithio cynaliadwy
- Mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a Sustrans Caerdydd, cefnogi'r project Cynlluniau Teithio Personol a fydd yn rhoi gwybodaeth a chyngor i gartrefi Caerdydd ar sut i deithio drwy'r ddinas mewn ffordd gynaliadwy

Dyheadau'r dyfodol

CAMAU GWEITHREDU

- Datblygu Metro De Cymru gyda phartneriaid

Cysylltu llunwyr polisi a grwpiau cymunedol

CAMAU GWEITHREDU

- Cefnogi Siarter Fwyd Caerdydd a Chyngor Bwyd Caerdydd a hyrwyddo bwyd iach, cynaliadwy a moesegol fel rhan o economi leol ffyniannus
- Gweithio gyda a chefnogi projectau bwyd cymunedol drwy Gydlynydd Lleoedd Cymunedol Trefol Llywodraeth Cymru
- Parhau i gefnogi datblygiad Cymdeithas Marchnad Gymunedol Glan-yr-afon sy'n cynnal marchnadoedd ffermwyr lleol ledled y ddinas bob wythnos
- Cefnogi partneriaeth Masnach Deg Caerdydd drwy hyrwyddo dewisiadau masnach deg yn y Cyngor a'r ddinas
- Ehangu ein gwaith gyda Banc Bwyd Caerdydd i helpu i gynnig bwyd, a roddir gan ddinasyddion a sefydliadau, i grwpiau sy'n agored i niwed ym mhob rhan o'r ddinas

Safonau uchel o ddiogelwch bwyd

CAMAU GWEITHREDU

- Mabwysiadu System Rheoli Diogelwch Bwyd Gorfforaethol a fyddai'n cyflwyno safonau cyson o ran diogelwch bwyd ym mhob un o safleoedd bwyd Cyngor Caerdydd
- Cynyddu canran y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio â safonau hylendid bwyd i 75%
- Cynyddu canran y safleoedd bwyd a asesir dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i 80%

Dyheadau'r dyfodol

CAMAU GWEITHREDU

- Cynyddu faint o fwyd lleol a gynhyrchir ledled y ddinas ar bob lefel – cartrefi, cymunedau a'r ddinas gyfan
- Datblygu marc bwyd Caerdydd Un Blaned ar gyfer busnesau lleol sy'n stocio neu'n defnyddio bwyd lleol a chynaliadwy
- Ymchwilio i drefniadau caffael y Cyngor i bennu lle y gellid gwneud gwelliannau o ran bwyd cynaliadwy

Gwella amddiffynfeydd llifogydd

CAMAU GWEITHREDU

- Ymgynghori ar Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli'r Risg o Lifogydd
- Mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, cyflawni strategaeth gyfathrebu hirdymor ar y perygl o lifogydd, a sut y gall trigolion, busnesau a chymunedau fod yn ymwybodol o'r risgiau yn eu hardal leol a pharatoi mesurau gwydnwch cymunedol gwell
- Gweithio gyda Dŵr Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael ag ardaloedd sy'n peri problemau o ran llifogydd yn y ddinas, gan gynnwys datrysiadau bwyd ym maestrefi Rhiwbeina a Gerddi Waterloo

Gweithredu systemau draenio cynaliadwy

CAMAU GWEITHREDU

- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau tai newydd yn cynnwys datrysiadau draenio cynaliadwy fel toeau gwyrdd, palmentydd athraidd, traethbantau, pyllau dŵr a gwlyptiroedd
- Cwblhau project Grangetown Werddach, ymgysylltu â'ch cyhoedd, a llunio achos busnes a chynlluniau cyflenwi – cynhelir y project mewn partneriaeth â Dŵr Cymru i arallgyfeirio dŵr glaw o'r system garthffosiaeth gyffredin i'r afon ar ôl proses hidlo oddefol

Defnyddio dŵr yn gall

CAMAU GWEITHREDU

- Hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr ynghyd â'n neges o ran effeithlonrwydd ynni i berchnogion cartrefi
- Ystyried sut y gellid defnyddio afonydd y ddinas a morglawdd Bae Caerdydd i gynhyrchu ynni
- Cymryd rhan ym mhroject Wisdom a arweinir gan Brifysgol Caerdydd a fydd yn ymchwilio i rwydweithiau monitro dŵr amser real

Newid yn yr Hinsawdd

CAMAU GWEITHREDU

- Gweithredu Cynllun Gweithredu Strategol o ran Newid yn yr Hinsawdd a rhannu canlyniadau a gwybodaeth gyda'n partneriaid i wella gwydnwch cymunedol

Cynllunio Strategol

CAMAU GWEITHREDU

- Gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd ar broject Ailwampio 2050 – i gyflwyno newid fesul cam o ran gwybodaeth a chapasiti mewn perthynas â chynaliadwyedd trefol drwy ymchwilio i lwybrau cymdeithasol a thechnegol realistig ar gyfer ailwampio ardaloedd trefol yn systematig
- Integreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy yn y Cynllun Datblygu Lleol i sicrhau bod y ddinas yn tyfu'n gynaliadwy - bydd y CDLl yn amodol ar Arfarniad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol cyfun
- Gweithredu Cynllun Ansawdd Amgylcheddol Lleol

Datblygu'r economi werdd

CAMAU GWEITHREDU

- Gweithio gyda'r Adran Datblygu Economaidd i lunio Cynllun Gweithredu Economi Werdd

Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau newid ymddygiadol cadarnhaol

CAMAU GWEITHREDU

- Datblygu partneriaeth Caerdydd Un Blaned ac adeiladu ar Bartneriaeth Caerdydd Carbon Isel, sy'n cynnwys sefydliadau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector i annog trefniadau gwell o ran cydweithio a rhannu gwybodaeth
- Cynnal Gŵyl Caerdydd Un Blaned 2013 i hyrwyddo neges Caerdydd Un Blaned ac ymgysylltu â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid – bydd hyn yn cynnwys digwyddiad i ddisgyblion cynradd ac uwchradd, digwyddiad ffilm gydag areithwyr a thrafodaethau, a digwyddiad i ddathlu'r ŵyl ym Mae Caerdydd
- Nodi cyfleoedd ar gyfer cynnig gwaith a hyfforddiant i bobl ifanc wrth ddatblygu Awyr Agored Caerdydd a Chaerdydd Un Blaned
- Cynnal Cydlynydd Lleoedd Cymunedol Trefol Caerdydd, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a chefnogi gwaith y rhaglen gyda chymunedau lleol ar brojectau datblygu cynaliadwy
- Parhau i nodi cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau academaidd a busnesau i ddod o hyd i ffrydiau ariannu arloesol

Dyheadau'r dyfodol

CAMAU GWEITHREDU

- Gweithredu ymgyrch newid ymddygiadol bwrpasol Caerdydd Un Blaned ar gyfer trigolion Caerdydd, gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol

I gael rhagor o wybodaeth am faterion sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy cysylltwch ag:

Yr Uned Datblygu Cynaliadwy
Cyngor Caerdydd
Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

E-bost: datblygucynaliadwy@caerdydd.gov.uk
Ffôn: 029 2087 3228 / 3234